Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

Oddi wrth: Rhian Huws Williams, Cadeirydd

At sylw: Aelodau'r Bwrdd Cynllunio

Nod: Trafodir yr adroddiad hwn yng nghyfarfod aelodau'r Bwrdd Cynllunio ar 22/06/18. Ei nod yw cloriannu gwaith hybu'r Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf, a chynnig argymhellion i'w trafod ar gyfer y ffordd ymlaen.

Ar gyfer: Trafodaeth a chytundeb. Cyflwynir argymhellion a gytunir i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

1—Nod y Rhaglen Hybu a Hyrwyddo

Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050* yn nodi:

> "Erbyn 2021 byddwn yn gwneud y canlynol.
>
> […] Sefydlu Rhaglen Hybu'r Gymraeg newydd i ddatblygu a darparu cynllun cydgysylltiedig i annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywydau pobl."

Cefndir

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg fuddsoddiad ariannol newydd o £5 filiwn i hybu'r Gymraeg. Dyrannwyd £3 miliwn i'r Ganolfan Dysgu Cenedlaethol i sefydlu rhaglen *Cymraeg Gwaith*. Dyrannwyd y £2 filiwn arall i greu Rhaglen Hybu'r Gymraeg.

Daeth y cyhoeddiad hwn yn dilyn datganiad gan Weinidog y Gymraeg y byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu gweithdrefnau presennol Comisiynydd y Gymraeg a'r broses o osod safonau ar gyrff. Amserol felly oedd rhoi gwaith i hybu'r iaith dan y chwyddwydr gan ystyried y byddai ymgynghoriad ar ddewisiadau o ran diwygio Mesur y Gymraeg/creu Deddf newydd.

Roedd y cyhoeddiadau hyn wedi eu gwneud yn sgil cyhoeddi Strategaeth Iaith newydd—*Cymraeg 2050*—ym mis Gorffennaf 2017, cynllun a chanddo'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Adnabuwyd nifer o feysydd gwaith lle roedd angen sylw penodol o safbwynt hybu, ac ar sail yr ymatebion hyn, aethpwyd ati i lunio'r Raglen Hybu newydd.

Er mwyn sicrhau arweiniad a mewnbwn i'r gwaith, sefydlwyd Bwrdd Cynllunio a chanddo'r nodau canlynol:

Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

- Rhoi cyngor ar sefydlu a gweithredu'r Rhaglen Hybu yn ystod y flwyddyn gyntaf;
- Darparu diweddariad achlysurol i'r Gweinidog ar gynnydd y Rhaglen Hybu
- Gwneud cynigion i gynllunio rhaglen waith 5 mlynedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
- Darparu cyngor ar unrhyw newidiadau strwythurol fydd yn codi wrth ddiwygio'r Mesur o safbwynt hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Fel rhan o'r cylch gorchwyl, nodwyd y byddai'n rhaid adolygu pwrpas y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y Gweinidog a'i swyddogion.

Roedd disgwyl i'r rhaglen hybu gychwynnol (dyrannwyd cyllid am flwyddyn yn unig yn y lle cyntaf, a daeth cadarnhad ddiwedd 2017 y byddai cyllid yn para am 2 flynedd arall) lenwi'r gwagle tybiedig a adawyd yn sgil diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd galwad am dystiolaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn dangos yr angen i sefydliadau ac unigolion gael arweiniad, ac i ymyraethau gael eu cynllunio a oedd y tu hwnt i'r fframwaith rheoleiddio a weinyddir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ar sail cyllid dros gyfnod hwy na'r darogan gwreiddiol, bu modd rhoi cynlluniau ar waith a oedd yn fwy strategol a thymor hir eu naws (un enghraifft yw'r cynllun Trosglwyddo Iaith y cafodd aelodau'r Bwrdd Cynllunio fewnbwn iddo).

Mae'r papur hwn yn crynhoi datblygiadau rhaglen waith hybu'r Gymraeg a wnaed gan Lywodraeth Cymru ystod 2017/18, yn cyfeirio at brif feysydd a gafodd sylw'r Bwrdd Cynllunio ac yn cynnig argymhellion ar gyfer sicrhau trefn hybu gadarn i'r Gymraeg yng nghyd-destun datblygiadau deddfwriaethol diweddar a phrofiadau ehangach ym maes cynllunio ieithyddol.

2—Gweithgarwch Hybu yr ymgymerwyd ag ef yn ystod 2017-2018

Roedd dyfodiad y Rhaglen Hybu yn galluogi Llywodraeth Cymru i recriwtio staff ychwanegol i hyrwyddo'r Gymraeg i ategu'r gwaith a wnaed gan swyddogion a oedd eisoes yn gweithio yn Is-adran y Gymraeg. Yn benodol, cyflogwyd uwch swyddog a swyddog marchnata. Maent wedi canolbwyntio ar wella ymgyrchoedd Dydd Miwsig Cymru, cefnogi gwaith hyrwyddo y Siarter Iaith, rhedeg ymgyrchoedd bach a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Secondiwyd uwch swyddog hybu i'r tîm polisi—mae'r swyddog yn gyfrifol am y Rhaglen Hybu newydd, polisi Technoleg Iaith a chreu polisi Trosglwyddo iaith yn y teulu. Defnyddir y gyllideb hefyd i ddyfnhau tystiolaeth drwy ymchwil er mwyn seilio ymyraethau hybu y dyfodol arno (e.e. prosiect i ddadansoddi'r cyswllt rhwng y Gymraeg a'r economi, gwerthusiadau o Cymraeg i Blant a'r Siarter Iaith, prosiect

sydd ar y gweill i ddadansoddi dulliau a ddefnyddir i newid agweddau ac ymddygiad mewn meysydd cydraddoldeb y gellir eu haddasu at ddibenion hybu'r Gymraeg). Mae cyfeiriad y gwaith wedi'i seilio ar ddamcaniaeth cynllunio ieithyddol gydnabyddedig (e.e. gwaith Joshua Fishman), ac yn canolbwyntio ar gynyddu defnydd cymdeithasol a phroffesiynol o'r Gymraeg, a helpu sefydliadau ac unigolion i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Ceir crynodeb o weithgarwch ar ffurf 'allbynnau' neu weithgareddau isod. Bydd yr holl raglen yn ddarostyngedig i asesiad o'i llwyddiant fel rhan o gynllun ymchwil a gwerthuso Llywodraeth Cymru o'i strategaeth iaith.

YMGYRCHOEDD

Cymraeg i Blant

Mae Adolygiad allanol o raglen Cymraeg i Blant wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd hwn, a'r polisi trosglwyddo iaith y cawsoch fewnbwn iddo, yn gyfle i atgyfnerthu gweithgarwch hybu trosglwyddo iaith ac addysg Gymraeg i blant. Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol:

- Creu dau astudiaeth achos fideo o rieni sy'n defnyddio Cymraeg i Blant—cyfanswm o 48,316 o olygfeydd ar Facebook a Twitter hyd ddyddiad ysgrifennu'r papur hwn.
- Crëwyd llyfr a fideos o ganeuon Cymraeg fel rhan o Dydd Miwsig Cymru—cafwyd cyfanswm o 13,487 o olygfeydd o'r fideos canu ar Facebook a Twitter, a 9,900 ar YouTube hyd ddyddiad ysgrifennu'r papur hwn.
- Printio ac anfon nwyddau Cymraeg i Blant e.e. llyfr caneuon, llyfryn addysg, ffolderi mamolaeth a cardiau sgan, a nwyddau i'r swyddogion Cymraeg i Blant
- Rêf babi yn Llanelli fel rhan o Dydd Miwsig Cymru—a hybwyd ar Facebook a Twitter, gyda 400 tocyn yn cael eu gwerthu i'r digwyddiad

Siarter Iaith

Prosiect yw'r Siarter iaith a chanddo'r nod o gynyddu defnydd cymdeithasol disgyblion ysgol o'r Gymraeg, y tu allan i sefyllfaoedd dysgu ffurfiol. Eleni, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol. Dylid nodi hefyd bod adolygiad ffurfiol allanol ar waith o'r siarter iaith a bydd ei ganfyddiadau/argymhellion yn cael eu defnyddio er mwyn gwella'r prosiect at y dyfodol.

- Cynnal disgo Siarter Iaith yn Llandudno i blant ysgol gynradd fel rhan o Dydd Miwsig Cymru, gyda dros 470 o ddisgyblion yn dod i'r digwyddiad.
- Ymgyrch PR yn gofyn i fusnesau roi sticeri Seren a Sbarc yn eu ffenest er mwyn i blant eu darganfod a thynnu lluniau i fod yn ran o gystadleuaeth. Cafodd yr ymgyrch ei beilota mewn 3 ardal—Pwllheli, Abertawe, a'r Bont-faen. Derbyniwyd

cyfanswm o 52 o geisiadau o fewn yr wythnos yr oedd yr ymgyrch yn rhedeg, gyda chyfanswm o 76,300 o argraffiadau a 1,900 o ymgysylltiadau ar Twitter, 40,400 o argraffiadau a 1,472 o ymgysylltiadau ar Facebook, a 376 o clics ar dudalen y gystadleuaeth ar wefan Cymraeg o ganlyniad i'r ymgyrch.

Rhwydwaith Cymraeg byd Busnes

Sefydlwyd rhwydwaith newydd o 11 o swyddogion ar hyd a lled Cymru i roi cymorth i o fusnesau bach a chanolig (SMEs) yng Nghymru i ddefnyddio mwy o Gymraeg ac i gynyddu faint o Gymraeg sydd i'w gweld yn y dirwedd ieithyddol. Dechreuodd y swyddogion yn eu swyddi ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r dasg a osodwyd i'r rhwydwaith yn enfawr o ystyried nifer y cwmnïau sydd; byddwn yn defnyddio system dangosyddion ieithyddol er mwyn cael gwaelodlin, ac i fesur cynnydd y gwaith ar ffurf ystadegol a graffig. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn cronfa ddata bwrpasol a grëir rhwng y Llywodraeth a Mentrau Iaith Cymru. Os bydd y dystiolaeth a gesglir yn dangos cynnydd, bydd hyn yn ein galluogi i dafoli cyfraniad y rhwydwaith, gyda'r nod o ystyried ei ehangu yn y dyfodol. Mae'r gronfa ddata a ddatblygwyd ar ffurf gychwynnol. Mae'n bosibl, os bydd yn llwyddiannus, y gellir ystyried ei defnyddio er mwyn mesur cynnydd (h.y. canlyniadau/deilliannau) ieithyddol prosiectau eraill, yn *ogystal* â chyfrif gwybodaeth rheoli/niferoedd allbynnau ayb.

Llinell Gymorth

Yn 2018/19, byddwn yn lansio Llinell Gyswllt â'r Gymraeg. Mae gwaith wedi bod yn digwydd tu ôl i'r llenni er mwyn ymbaratoi at hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod modd rhannu'r cyfieithiadau gyda Google/Microsoft, er mwyn gwella Cyfieithu awtomatig ar sail data o safon
- Paratoi a chynnal proses recriwtio swyddogion i staffio'r Llinell
- Paratoi llif Gwaith Cyfieithu awtomatig, fel bo'r holl gyfieithiadau a wneir yn gallu cael eu hailddefnyddio dro ar ôl tro, gan wahanol swyddogion a chan wahanol gwmnïau Cyfieithu
- Paratoi llif Gwaith y CRM (System rheoli cwsmeriaid). Mi fydd y llinell yn defnyddio system swyddfa Busnes Cymru, a fydd yn rhoi gwedd sengl o holl ymwneud cwmni/unigolyn â'r gwasanaeth. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi data gwerthfawr i ni o ran bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r Llinell yn cysylltu'n awtomatig gyda systemau ffôn/e-bost/testun fel bo modd i'r un unigolion/sefydliadau gael cofnod canolog o'u hymholiadau, ac y gall y gwasanaeth hefyd ddefnyddio hyn fel data i wella'r gwasanaeth at y dyfodol
- Paratoi tendr i benodi cwmni Cyfieithu

Croeso i Gymru, Croeso i'r Gymraeg

Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

- Lansiwyd Pecyn Croeso yn Ynys Môn ym mis Ebrill. Mae'r Gwaith, a wnaed ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Menter Iaith Môn ac arwerthwyr tai lleol yn cynnig templed y gellir ei ailddefnyddio mewn ardaloedd eraill. Mae hyn hefyd yn wir o ran y llyfryn a grëwyd, sydd yn rhoi ystadegau/gwybodaeth leol i ardal benodol ar ffurf y gellir ei addasu at ardaloedd eraill yng Nghymru heb waith dylunio sylweddol ychwanegol

Cynllun prentisiaethau'r Urdd

Rhoddwyd cyllid i Urdd Gobaith Cymru ddatblygu'r ddarpariaeth prentisiaeth ac i hybu prentisiaethau drwy cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o amod y cyllid roedd angen i'r Urdd feithrin gallu mewnol i gynnig mwy o brentisiaethau yn y maes chwaraeon, cynnig prentisiaethau i gyflogwyr allanol, (megis ysgolion, Cynghorau Sir ayyb) ac i ddatblygu cynnig prentisiaethau newydd o fewn y maes ieuenctid. Yn ychwanegol roedd pwyslais ar hybu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg fel rhan o'i gwaith ymgysylltu ag ysgolion.

Yn ystod y cyfnod bu cynnydd yn nifer y prentisiaethau sydd yn cael eu cyflogi gan yr Urdd. Mae gan yr Urdd bellach 39 prentis yn y maes chwaraeon ac mae galw o fewn y sector yn parhau. Mae'r cynnydd yn adeiladau tuag at darged yr Urdd o gynnig 100 o brentisiaethau erbyn dathliadau canmlwyddiant y mudiad yn 2022.

Fel rhan o'r gwaith hybu mae nifer o ddeunyddiau marchnata newydd wedi eu cynhyrchu sydd yn cael eu defnyddio gan yr Urdd a phartneriaid:

https://www.youtube.com/watch?v=Y2Ma_Zkq9aY&list=PLNq6F0_BGDH9QVwTq4enBAtvXy5fgPvVs

Grant Cymraeg 2050

Yn unol â'r ddogfennaeth a anfonwyd atoch yn gynharach yn y flwyddyn, cynhaliwyd cystadleuaeth 'ymatebol' (reactive) i wahodd ceisiadau grant i arloesi ym myd cynllunio ieithyddol. Roedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn syfrdanol o uchel, yn arbennig o ystyried mai dros byr o dro yr oedd yn bosibl rhedeg y grant. Er mor boblogaidd yr oedd, rydym yn bwriadu adolygu'r cynllun er mwyn gweld sut y gellid mireinio'r meini prawf perthnasol pe bai cynllun o'r fath yn cael ei agor yn y dyfodol. Yn anffodus, roedd baich weinyddol y cynllun yn un drom ac, fel y'ch hysbyswyd, bu'n rhaid dargyfeirio adnoddau staff sylweddol er mwyn mynd i'r afael â cheisiadau am y cynllun o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (nad ydynt eto ar ben). Mater arall i'w ystyried wrth gloriannu'r cynllun yw'r graddau y dylid defnyddio cynllun tebyg yn y dyfodol fel cyllid 'seedcorn', naill ai i sicrhau bod prosiectau'n mynd yn hunangynhaliol neu er mwyn sicrhau bod adrannau/sefydliadau eraill yn eu prif-ffrydio.

Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

Technoleg Iaith

Macsen— datblygwyd ymhellach broptoteip o gynorthwy-ydd rhithwir Cymraeg (fel Siri neu Alexa elfennol) gan Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor. Gofynnir cwestiwn ar lafar i feicroffon am nifer gyfyngedig o bynciau a daw'r ateb yn ôl drwy'r uchelseinydd, yn Gymraeg.

Gwaith Wicipedia—#Wicilechyd Llyfrgell Genedlaethol

Gweithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i greu erthyglau yn benodol ar y sector iechyd

4699 erthygl Cymraeg am iechyd wedi'u creu (targed o 3000)
280 o erthyglau wedi'u creu gan wirfoddolwyr a chyfranwyr yn ystod y digwyddiad
41 wedi'u creu gan ddefnyddio cynnwys presennol sydd â thrwydded agored
4,378 wedi'u creu gan ddefnyddio data agored i led awtomeiddio'r broses o greu cynnwys

Hefyd, ariannwyd gweithdai Wicipedia er mwyn casglu data ar Ynys Môn cyn Eisteddfod Genedlaethol 2017, a cherddoriaeth bop yng Nghaerdydd fel rhan o Dydd Miwsig Cymru.

PhD KESS (Knowledge Exchange Scheme) II—Ariannwyd [ ] er mwyn ymchwilio i dechnolegau lleferydd ym Mhrifysgol Bangor. Hyd yma, mae hi wedi cymharu systemau adnabod lleferydd HTK a Kaldi. Mae'n archwilio ffeiliau sain o'r ap torfoli (crowdsourcing) *Paldaruo* ac wedi cychwyn trafodaethau gydag S4C a'r Llyfrgell Genedlaethol o ran casglu archifau sain i fwydo mewn i ddatblygiad y dechnoleg newydd.

Gwnaethpwyd gwaith sylweddol ar ymgynghori a chyd-greu Cynllun Gweithredu ar gyfer technoleg iaith ar gyfer y Gymraeg (drwy Fwrdd Technoleg y Gweinidog). Bydd y Cynllun yn cael ei lansio a'i weithredu yn nes ymlaen yn 2018. Mae a wnelo rhan o'r cynllun â sicrhau bod system gaffael y sector cyhoeddus yn cael ei haddasu er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cychwyn. Mae gwaith y tu ôl i'r llenni wedi bod yn digwydd fel rhan o'r agenda Prif Ffrydio a'n gobaith yw lansio hyn dros y misoedd nesaf, gan gynnwys yn y wasg dechnolegol arbenigol.

Dydd Miwsig Cymru

Cynhaliwyd ymgyrch genedlaethol Dydd Miwsig Cymru 9 Chwefror 2018. Hon oedd y drydedd flwyddyn i'r Llywodraeth gynnal yr ymgyrch a dyma'r ymgyrch mwyaf o'i fath hyd. Isod, ceir rhai o brif ganlyniadau'r ymgyrch:

Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

Digwyddiadau—Mynychodd 4,330 o bobl ddigwyddiadau ar draws Cymru—yn ogystal, cymerodd 183 o fusnesau a 318 o ysgolion ran mewn gweithgaredd/digwyddiadau.

Ymweliadau gwefan—Cyfeiriodd sylw yn y wasg 28,577 o unigolion at y wefan *Cymraeg* (gwefan Llywodaeth Cymru), mwy na 14 gwaith y targed a osodwyd.

Sylw yn y wasg—Llwyddwyd i sicrhau 88 darn o sylw yn y wasg print, ar-lein a darlledu—mwy na 4 gwaith y targed a osodwyd. Cafwyd trydariadau gwreiddiol gan NME, BBC Breakfast, BBC Wales, BBC Radio 3, BBC Radio 4, ITV Wales News, S4C a mwy.

Cyrhaeddiad yr ymgyrch—Nod yr ymgyrch oedd cyrraedd dros 5 miliwn o bobl gan ddefnyddio'r hashtagiau #DyddMiwsigCymru+ #WelshLanguagemusicDay; llwyddwyd i gyrraedd dros 74 miliwn o bobl
Gwyliodd dros 1.8 miliwn ein cynnwys fideo dwyieithog ar draws Twitter, Facebook a Instagram.

Defnyddiwyd yr hashtagiau gan fusnesau ar draws y DU, cyrff llywodraethol, grwpiau cymunedol, busnesau mawr, cymunedau o Gymry dramor, sefydliadau cerddoriaeth a diwylliannol, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru, EE, Cyngor Celfyddau Cymru a Peter's Pies.

Allbynnau—Dywedodd 74% o'r bobl a holwyd (Nifer=XXX) fod y digwyddiad wedi eu hysgogi i ddysgu Cymraeg. Dywedodd 94% o'r bobl a holwyd (Nifer=XXX) eu bod yn credu fod cerddoriaeth yn ffordd dda i helpu cael mwy o siaradwyr Cymraeg.

Roedd y digwyddiadau'n gyfle i greu ac i atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol ac i sicrhau cyfalaf cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

Y Bwrdd Cynllunio

Fel y nodwyd uchod, sefydlwyd y Bwrdd gan Weinidog y Gymraeg yn Ebrill 2017 fel rhan o'r datganiad ar £2 filiwn ychwanegol i hybu'r Gymraeg. Roedd ymrwymiad i adolygu ar ôl blwyddyn yng ngoleuni datblygiadau a chyfeiriad polisi'r Llywodraeth.

Y nodau a osodwyd i'r Bwrdd oedd:

- Rhoi cyngor ar sefydlu a gweithredu'r Rhaglen Hybu yn ystod y flwyddyn gyntaf
- Darparu diweddariad achlysurol i'r Gweinidog ar gynnydd y Raglen Hybu
- Rhannu gwybodaeth a rhagweld blaenoriaethau perthnasol yn y maes
- Gwneud cynigion i gynllunio rhaglen waith 5 mlynedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
- Darparu cyngor ar unrhyw newidiadau strwythurol fydd yn codi wrth ddiwygio'r Mesur o safbwynt hybu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Roedd disgwyliad i'r Bwrdd gwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn

Ffocws y Bwrdd Cynllunio ym 2017/18

Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod 4 gwaith yn ystod 2017/18. Cafwyd cyflwyniadau gan swyddogion y Llywodraeth ac arbenigwyr allanol ar feysydd penodol a mewnbwn gan yr aelodau i lywio'r camau nesaf. Y prif feysydd a gafodd sylw oedd ymchwil a datblygiad rhaglen waith trosglwyddo'r iaith rhwng y cenedlaethau, rhaglen deall dwyieithrwydd, newid ymddygiad drwy 'Addewidion leithyddol', ymgyrchoedd hybu a hyrwyddo megis Dydd Miwsig Cymru, Pecyn "Croeso i Gymru, Croeso i'r Gymraeg"

Yn ystod y flwyddyn bu'r Bwrdd hefyd yn rhoi cyngor i swyddogion ar y faterion megis:

- Gwersi a mireinio proses grantiau Cymraeg 2050
- Cryfhau cyrhaeddiad prosiectau/datblygiadau newydd e.e. y berthynas rhwng Cynghorau Sir a'r swyddogion Cymraeg byd Busnes
- Rhestr o ymyraethau posibl i'w treialu ym maes trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu
- Cefnogaeth i ymyraethau newydd a gwahanol megis newid ymddygiad

Dengys gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ehangder a chymlethdod maes hybu'r Gymraeg a phwysigrwydd fframwaith strategol, blaenoriaethau clir a naratif gadarnhaol a chyson er mwyn gweithredu Strategaeth *Cymraeg 2050*.

Negeseuon o'r gwaith hyd yma

Blwyddyn Gyntaf Rhaglen Hybu'r Gymraeg
Adroddiad y Cadeirydd

Mae trafodaethau'r Bwrdd Cynllunio, a'r drafodaeth genedlaethol ehangach wedi dangos bod angen diwallu uchelgais y strategaeth drwy newid ein dulliau cynllunio ieithyddol yn sylweddol.

Mae angen gwaith partneriaeth rhwng yr holl sefydliadau a allai gael dylanwad ar ddyfodol defnydd y Gymraeg. Mae angen dod â phrofiad, ymchwil, technegau ac arweinyddiaeth o feysydd amrywiol a'u cymhwyso i'r Gymraeg. Roedd ein trafodaeth am economeg ymddygiadol yn un enghraifft o hyn—ymhlith llawer o enghreifftiau posibl. Mae hefyd angen meddu ar ddealltwriaeth well ar yr hyn sy'n digwydd ym myd hybu iaith mewn ardaloedd eraill a chanddynt sefyllfaoedd sosioieithyddol tebyg i eiddo Cymru ac i sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r rheini. Ac mae angen i ymchwil ac adfyfyrio ffurfiol fod yn sail gadarn i'r cwbl.

Er mwyn trawsnewid y defnydd a wneir o'r Gymraeg, mae angen gweithio'n systemig a defnyddio pŵer pobl a sefydliadau eraill i ddylanwadu. Mae angen gochel rhag darparu ar draul defnyddio pŵer dylanwadu ar eraill i ysgwyddo cyfrifoldebau ieithyddol. Mae ymbweru cymunedol hefyd yn rhan ganolog o hyn.

Bydd theorïau newid (h.y. methodoleg i ddogfennu'n fanwl yr hyn yr hoffem ei weld yn wahanol mewn maes penodol) yn ffurfio rhaglen newid er mwyn sicrhau fod y cyrff sy'n derbyn arian gan Lywodraeth yn ysgwyddo cyfrifoldebau cynllunio ieithyddol, ac yn hynny o beth yn ddrych o sefyllfa sydd ar waith mewn ardaloedd eraill a chanddynt ieithoedd llai eu defnydd. Bydd angen hefyd waith sylweddol o ran darbwyllo a rhaglen cefnogi er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu dyletswyddau cynllunio ieithyddol priodol.

Mae'n angenrheidiol cynnwys partneriaid yn y broses gynllunio hon er mwyn creu darlun cyflawn o'r gwaith hybu angenrheidiol i gyrraedd nodau'r strategaeth. Mae angen partneriaid megis Comisiynydd y Gymraeg, y Ganolfan Dysgu Genedlaethol, Llywodraeth Leol. Ac mae angen i'r bartneriaeth fod yn un drawsffurfiannol. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n cyflawni hyn oll ar ei phen ei hun. Bydd hyn yn golygu gweithio ar draws asiantaethau, cyd-greu a chynllunio, ac er fod y gwaith hwnnw'n digwydd yn barod i amryw raddau, mae angen gorolwg strategol, hir-dymor. Ac mae angen cydlynu sylweddol arno, gan ddefnyddio methodoleg rheoli rhaglen cydnabyddedig. Mae hynny'n golygu y bydd angen cyfarfod yn fwy rheolaidd na phedair gwaith y flwyddyn.

Er mwyn sicrhau proses lyfn wrth gyflwyno newidiadau strwythurol fydd yn dod yn sgil Bil arfaethedig y Gymraeg, rydym yn cynnig fod Bwrdd Cynllunio ar ei newydd wedd yn dod â phartneriaid perthnasol at ei gilydd i ailedrych ar sut mae'r gwaith hybu a hwyluso'n cael ei wireddu. Mae'r cyfnod pontio sydd o'n blaenau yn gyfle euraid i sicrhau cynllunio cydlynus, wedi ei seilio ar dystiolaeth a data, a'r nod o roi'r

cychwyn gorau posibl i'r Comisiwn a'r gwaith cynllunio ieithyddol a fydd yn cael ei wneud gan sefydliadau eraill wedi dyfodiad y Comisiwn.

Argymhellion i'w trafod

Mae'r Bwrdd Cynllunio wedi cynorthwyo i lywio gwaith y Rhaglen Hybu yn y flwyddyn 2017/18 ac wedi cynnig cyngor gwerthfawr i swyddogion Llywodraeth Cymru wrth fynd ati i roi cynlluniau a phrosiectau newydd ar waith.

Mae'r dasg o greu cynllun hybu 5 mlynedd yn un sylweddol. Ac mae'r dasg o sicrhau gweithredu llwyddiannus ar Strategaeth Cymraeg 2050 hyd yn oed yn fwy.

Ni ddylid tanbrisio'r amser a'r ymdrech a fydd yn angenrheidiol er mwyn i'r afael â'r holl elfennau perthnasol i greu cynllun hybu addas. Yn hynny o beth, nid wyf yn ystyried fod y Bwrdd Cynllunio ar ei wedd gyfredol yn gallu cyflawni'r disgwyliadau hyn ac rwyf wedi trafod hynny sawl gwaith yn ystod ein sesiynau.

Rwyf felly o'r farn ein bod fel grŵp yn argymell i'r Gweinidog y dylid addasu'r Bwrdd Cynllunio i greu grŵp rheoli rhaglen ehangach a chanddo drawsdoriad o arbenigedd a phrofiad yn y maes cynllunio ieithyddol, hybu a hyrwyddo. Byddai nod y grŵp yn parhau i weithio ar greu Rhaglen Hybu i'w gweithredu gan yr holl bartneriaid addas yn y cyfnod interim rhwng nawr a chyfnod cychwynnol y Comisiwn newydd. Rydym hefyd yn argymell fod angen cyfarfodydd yn fwy aml er mwyn osgoi colli momentwm – nid yw'r grŵp yn teimlo fod pedwar cyfarfod tymhorol yn ddigonol i fynd i'r afael a'r dasg o'u blaenau. Mae'n bwysig fod amser ac arbenigedd aelodau'r grŵp hwnnw yn cael gydnabod yn briodol, fod y drefn yn un glir gyda strwythur llywodraethiant (methodoleg rheoli rhaglen cydnabyddedig) eglur ac adnoddau priodol i gefnogi'r gwaith.